- Trosglwyddiad o £7,000k i mewn o gronfeydd wrth gefn i Gam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy. Mae hyn yn ddyraniad ychwanegol o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol yn 2015-16 ar gyfer cynllun Tir ar gyfer Tai Fforddiadwy;
- Trosglwyddiad o £20,000k i mewn o gronfeydd wrth gefn ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol.

Mae'r ddau ddyraniad yn cael eu halinio â blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP).

7.6 Cafwyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG, ac mae effaith y rhain yn niwtral. Mae'r tablau gweithredu'n dangos effaith net y rhain ar bob cam gweithredu. Isod amlinellir trosglwyddiadau penodol dros £250k:

Cam Gweithredu Cymunedau a Threchu Tlodi

- Trosglwyddiad net o £800k allan, gan gynnwys:
 - £1,300k i Gam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol;
 - £500k i mewn o Gam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy ar gyfer Dechrau'n Deg.

Cam Gweithredu Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel

- Trosglwyddiad net o £6,200k i mewn, gan gynnwys:
 - Trosglwyddiad o £10,000k i mewn o Gam Gweithredu Eiddo Gwag gan alinio cyllidebau â gwariant yn fwy manwl-gywir;
 - Trosglwyddiad o £3,800k allan i Gam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy, sef arian gwaddol heb ei ddefnyddio a drosglwyddwyd yn ôl i'r Grant Tai Cymdeithasol.

Cam Gweithredu Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy

- Trosglwyddiad net o £4,600k i mewn, gan gynnwys:
 - Trosglwyddiad o £3,800k i mewn o Gam Gweithredu Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel, sef arian gwaddol heb ei ddefnyddio a drosglwyddwyd yn ôl i'r Grant Tai Cymdeithasol;
 - Trosglwyddiad o £1,300k i mewn o Gam Gweithredu Cymunedau a Threchu Tlodi ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol;
 - Trosglwyddiad o £500k allan i Gam Gweithredu Cymunedau a Threchu Tlodi ar gyfer Dechrau'n Deg.

Cam Gweithredu Eiddo Gwag

- Trosglwyddiad o £10,000k allan i Gam Gweithredu Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel gan alinio cyllidebau â gwariant yn fwy manwl-gywir.

Tabl 7.1 - Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant (SPA) Cymunedau a Threchu Tlodi

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnoddau 2015-16			Cyfalaf 2015-16		
	Cyllideb ¹³	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb ¹⁴	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd	125,384	1,200	126,584	0	0	0
Cefnogi Cymunedau a Phobl	58,433	-171	58,262	0	0	0
Cymunedau a Threchu Tlodi	0	250	250	16,450	-800	15,650
Cydraddoldeb a Chynhwysiant	2,016	0	2,016	0	0	0
Polisi Tai	141,559	-79	141,480	1,641	0	1,641
Tai a Lleoedd	14,122	1,393	15,515	377,329	27,800	405,129
Cyfanswm DEL	341,514	2,593	344,107	395,420	27,000	422,420
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	341,514	2,593	344,107	395,420	27,000	422,420

¹³ Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

¹⁴ Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

8. Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

8.1 Cafwyd cynnydd net yn DEL yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth o £152,369k, gan gynnwys cynnydd o £107,678k o ran Adnoddau a chynnydd o £44,691k o ran Cyfalaf.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

8.2 Mae cynnydd o £615k yn y gyllideb AME i adlewyrchu'r rhagolygon alldro diweddaraf o ran prisio'r portffolio Ffyrdd.

Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU

8.3 Mae £10,036k wedi'i drosglwyddo i mewn i Gam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh (Cyfalaf) o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon mewn perthynas â phrosiect Cyflymu Cymru.

Newidiadau i Adnoddau

8.4 Effaith net y trosglwyddiadau â'r cronfeydd wrth gefn yw cynnydd o £108,063k, yn cynnwys:

- Trosglwyddiad o £108,200k o Adnoddau Anghyllidol i mewn i Gam Gweithredu Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd i gynnwys y costau dibrisiant;
- Trosglwyddiad o £300k allan i Gam Gweithredu Sectorau fel cyfraniad MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth at gefnogi Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn y MEG Addysg a Sgiliau;
- Trosglwyddiad o £163k i mewn i Gam Gweithredu Arweinyddiaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd i Goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

8.5 Effaith trosglwyddiadau â MEG eraill yw gostyngiad net o £385k oherwydd trosglwyddiadau sy'n ymwneud â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, sy'n cynnwys:

- £500k allan o Gam Gweithredu Hybu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd mewn perthynas ag ad-daliadau ar fenthyciadau;
- £115k i mewn i Gam Gweithredu Hybu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd mewn perthynas â buddsoddiadau ychwanegol.

8.6 Cafwyd hefyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG; mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae'r tablau camau gweithredu yn nodi effaith net y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

Cam Gweithredu Sectorau

- Trosglwyddiad net o £1,821k i mewn sy'n cynnwys £1,721k i fodloni gofynion cyflawni prosiectau.

Cam Gweithredu Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Fusnes

- Trosglwyddiad o £2,161k i mewn i fodloni gofynion cyflawni prosiectau.

Cam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh

- Trosglwyddiad o £1,296k i mewn i fodloni gofynion cyflawni prosiectau.

Cam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh – Adnoddau nad ydynt yn Arian

Parod

- Trosglwyddiad o £1,191k o Adnoddau Anghyllidol i mewn i dalu costau dibrisiant ar asedau seilwaith.

Cam Gweithredu Gosod Seilwaith mewn Perthynas ag Eiddo

- Trosglwyddiad o £3,836k allan i fodloni gofynion cyflawni prosiectau ar draws Camau Gweithredu MEG eraill.

Cam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol

- Trosglwyddiad net o £1,562k i mewn, yn cynnwys:
 - Trosglwyddiad o £1,078k i mewn i fodloni gofynion cyflawni prosiectau;
 - Trosglwyddiad o £484k o Adnoddau Anghyllidol i mewn i dalu costau dibrisiant ar asedau meddalwedd.

Cam Gweithredu Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd

- Trosglwyddiad o £6,200k i mewn i fodloni gofynion cyflawni prosiectau.

Cam Gweithredu Teithio Cynaliadwy

- Trosglwyddiad o £1,870k allan i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau ar draws Camau Gweithredu MEG eraill.

Cam Gweithredu Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr

- Trosglwyddiad o £6,750k allan i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau ar draws Camau Gweithredu MEG eraill.

Cam Gweithredu Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol a'r Amgylchedd Naturiol

- Trosglwyddiad net o £1,775k o Adnoddau Anghyllidol allan i gyfrannu at y costau dibrisiant ar asedau sydd mewn Camau Gweithredu ar draws y MEG, yn cynnwys:
 - £1,191k i Gam Gweithredu Darparu Seilwaith TGCh – Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod;
 - £484k i Gam Gweithredu Rhaglenni Corfforaethol.

Newidiadau i Gyfalaf

8.7 Effaith net y trosglwyddiadau â'r cronfeydd wrth gefn yw cynnydd o £34,235k, yn cynnwys:

- Trosglwyddiad o £15,100k allan o Gam Gweithredu Cyllid Cymru mewn perthynas ag ad-daliadau yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau gan Cyllid Cymru CCC;
- Trosglwyddiad net o £49,150k i mewn, yn cynnwys:
 - Trosglwyddiad o £46,400k i Gam Gweithredu Sectorau, sy'n cynnwys:
 - £15,000k ar gyfer Cronfa Fusnes Cymru;
 - £10,000k ar gyfer Cronfa Fuddsoddi Interim mewn Menter Technoleg;
 - £7,700 ar gyfer cefnogi buddsoddiadau strategol mewn busnes;
 - £5,000k ar gyfer y Gronfa Twf Busnesau Bach a Chanolig;
 - £3,000k ar gyfer benthyciad masnachol Maes Awyr Caerdydd;
 - £3,000k ar gyfer y Gronfa i Ficro-fusnesau;
 - £1,500k ar gyfer Ffordd Gyswllt Llangefni;
 - £1,200k ar gyfer Porth y Gogledd.
 - Trosglwyddiad o £2,750k i mewn i Gam Gweithredu Gosod Seilwaith mewn Perthynas ag Eiddo ar gyfer y Gronfa Datblygu Eiddo;
 - Trosglwyddiad o £185k i mewn i Gam Gweithredu Arweinyddiaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd er mwyn Coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

8.8 Effaith net y trosglwyddiadau â MEG eraill yw cynnydd o £420k o Gam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, sy'n cynnwys y trosglwyddiad canlynol dros £250k:

- Trosglwyddiad o £300k i mewn i Gam Gweithredu Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd mewn perthynas â goleuadau LED cefnffyrdd.

8.9 Cafwyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG; mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae'r tablau camau gweithredu yn dangos effaith net y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

Cam Gweithredu Sectorau

- Trosglwyddiad o £4,500k i mewn o Gam Gweithredu Rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Effeithiol i roi cymorth cynnar ychwanegol i Gronfa Fusnes Cymru yn Cyllid Cymru.

Cam Gweithredu Rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Effeithiol

- Trosglwyddiad o £4,500k allan o adnoddau heb eu defnyddio i gefnogi gweithgarwch yn y Cam Gweithredu Sectorau.

Cam Gweithredu Gwasanaethau Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd

- Trosglwyddiad o £350k i mewn o Gam Gweithredu Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol a Naturiol i ddarparu man arddangos ar wahân yn Amgueddfa Cymru.

Cam Gweithredu Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol a'r Amgylchedd Naturiol

- Trosglwyddiad net o £685k allan i gefnogi gofynion prosiectau ar draws Camau Gweithredu MEG eraill, yn cynnwys:

- Trosglwyddiad o £350k allan i Gam Gweithredu Gwasanaethau Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd i ddarparu man arddangos ar wahân yn Amgueddfa Cymru.

Tabl 8.1 - Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant (SPA) Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnoddau 2015-16			Cyfalaf 2015-16		
	Cyllideb ¹⁵	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb ¹⁶	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Sectorau a Busnes	65,715	3,682	69,397	91,633	50,900	142,533
Gwyddoniaeth ac Arloesi	9,946	0	9,946	2,979	0	2,979
Digwyddiadau Mawr	3,918	0	3,918	0	0	0
Seilwaith	18,671	-1,349	17,322	28,456	12,786	41,242
Rhaglenni Strategaeth a Chorfforaethol	5,984	1,562	7,546	79	-15,100	-15,021
Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnfyrdd	166,480	114,400	280,880	62,550	300	62,850
Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr	185,679	-6,750	178,929	0	0	0
Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd	0	0	0	192,585	0	192,585
Teithio Cynaliadwy	57,209	-1,870	55,339	72,447	0	72,447
Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd	4,764	0	4,764	6,900	0	6,900

¹⁵ Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

¹⁶ Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

Gwella a Chynnal y Seilwaith Ffyrdd Lleol	0	0	0	13,667	0	13,667
Cefnogi a Chynnal Sector Celfyddydau Cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac Eraill	31,835	0	31,835	355	0	355
Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	36,170	-222	35,948	4,743	806	5,549
Gweithredu Rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Effeithiol	23,891	0	23,891	5,345	-4,500	845
Y Cyfryngau a Chyhoeddi	3,526	0	3,526	60	184	244
Cadw, Gwarchod, Cynnal a Hyrwyddo Mynediad i'r Amgylchedd Hanesyddol a'r Amgylchedd Naturiol	14,686	-1,775	12,911	4,401	-685	3,716
Cyfanswm DEL	628,474	107,678	736,152	486,200	44,691	530,891
AME						
Seilwaith	25,000	0	25,000	0	0	0
Gweithrediadau'r Rhwywaith Traffyrdd a Chefnffyrdd	47,318	615	47,933	0	0	0
Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd	3,013	0	3,013	0	0	0
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	703,805	108,293	812,098	486,200	44,691	530,891

9. Addysg a Sgiliau

Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

9.1 Cafwyd cynnydd net yn DEL Addysg a Sgiliau o £35,113k, gan gynnwys cynnydd mewn Adnoddau o £4,913k a chynnydd mewn Cyfalaf o £30,200k.

AME

9.2 Mae cyllideb AME wedi gostwng £235,515k, gan gynnwys gostyngiad mewn Adnoddau AME o £226,993k a gostyngiad mewn Cyfalaf AME o £8,522k, mewn perthynas â Benthyciadau i Fyfirwyr. Mae hyn yn cynnwys diwygio'r gyfradd disgownt.

Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU

9.3 Cafwyd trosglwyddiad o £464k allan o Gam Gweithredu Cyflogaeth a Sgiliau i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS). Mae Llywodraeth Cymru'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ei phroses Buddsoddwyr mewn Pobl i UKCES er mwyn iddo gael ei ddarparu'n genedlaethol. Bwriad y trosglwyddiad yw cynnwys y cynnydd mewn costau oherwydd y newid hwn a gaiff ei ariannu â grant trwy BIS.

Newidiadau i Adnoddau

9.4 Effaith net trosglwyddiadau â chronfeydd wrth gefn yw cynnydd o £5,100k gan gynnwys:

- Trosglwyddiad o £11,300k i mewn i Gam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16, mewn perthynas â Grant Dysgu Llywodraeth Cymru;
- Trosglwyddiad o £6,200k allan o Gam Gweithredu'r Cwricwlwm er mwyn alinio'r ymdriniaeth ar gyfer cyfrifyddu a chyllidebu mewn perthynas â'r Gronfa Her Ysgolion.

- 9.5** Effaith net trosglwyddiadau â MEGs eraill yw cynnydd o £277k sy'n cynnwys yr addasiad canlynol dros £250k:
- trosglwyddiad o £310k i Gam Gweithredu Cymwysterau o Gam Gweithredu Costau Staff yn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i dalu costau staff sy'n trosglwyddo i'r corff newydd, sef Cymwysterau Cymru.

- 9.6** Gwnaed nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG; mae effaith net y trosglwyddiadau hyn yn niwtral. Mae'r tablau camau gweithredu yn dangos effaith net y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

Cam Gweithredu'r Cwricwlwm

- Trosglwyddiad net o £2,100k allan , gan gynnwys:
 - £1,400k allan i Gam Gweithredu Safonau Addysg i gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, er mwyn lleihau nifer y gwahanol grantiau sy'n cael eu gwneud i gonsortia. Caiff y rhain eu hariannu bellach trwy'r Grant Gwella Addysg;
 - £900k allan i Gam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth i gefnogi gweithredu argymhellion a gyflwynwyd gan yr Athro Furlong a'r Fargen Newydd.

Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth

- Trosglwyddiad net o £900k i mewn o Gam Gweithredu'r Cwricwlwm i gefnogi gweithredu argymhellion a gyflwynwyd gan yr Athro Furlong a'r Fargen Newydd.

Cam Gweithredu Addysg Uwch

- Trosglwyddiad net o £4,137k allan i Gam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16, gan gynnwys:
 - Trosglwyddiad o £5,137k allan o weddill arian y grant ffioedd hyfforddi i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer gwariant

yn y flwyddyn ariannol 2015-16. Dyma ail ran trosglwyddo'r cyfrifoldeb (o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i Lywodraeth Cymru) yn achos y grant ffioedd hyfforddi i gynnig gwell atebolrwydd a thryloywder mewn perthynas â thaliadau grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr;

- Trosglwyddiad o £1,000k i mewn i adlewyrchu'r arian ychwanegol a ddarperir i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer cymorth rhan-amser yn 2015-16.

Cam Gweithredu Safonau Addysg

- Trosglwyddiad o £1,400k i mewn o Gam Gweithredu'r Cwricwlwm, sef cymorth ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd er mwyn lleihau nifer y gwahanol grantiau a wneir i gonsortia. Caiff y rhain eu hariannu bellach trwy'r Grant Gwella Addysg.

Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16

- Trosglwyddiad o £4,137k i mewn o Gam Gweithredu Addysg Uwch, yn cynnwys:
 - Trosglwyddiad o £5,137k i mewn o weddill arian y grant ffioedd hyfforddi, i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer gwariant yn y flwyddyn ariannol 2015-16. Dyma ail ran trosglwyddo'r cyfrifoldeb (o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i Lywodraeth Cymru) yn achos y grant ffioedd hyfforddi i gynnig gwell atebolrwydd a thryloywder mewn perthynas â thaliadau grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr;
 - Trosglwyddiad o £1,000k allan i adlewyrchu'r arian ychwanegol a ddarperir i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer cymorth rhan-amser yn 2015-16.

Cam Gweithredu y Gymraeg mewn Addysg

- Trosglwyddiad net o £134k i mewn o Gam Gweithredu'r Iaith Gymraeg, gan gynnwys:
 - trosglwyddiad o £825k i mewn oherwydd symud y cyfrifoldeb dros fentrau ym maes trosglwyddo iaith ac arferion iaith;
 - trosglwyddiad o £691k allan i Gam Gweithredu'r Iaith Gymraeg i ariannu datblygiadau yn deillio o Ddatganiad Polisi'r Gymraeg.

Cam Gweithredu'r Iaith Gymraeg

- Trosglwyddiad net o £134k allan i Gam Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg, gan gynnwys:
 - Trosglwyddiad o £825k i mewn oherwydd symud y cyfrifoldeb dros fentrau ym maes trosglwyddo iaith ac arferion iaith;
 - Trosglwyddiad o £691k i mewn i ariannu datblygiadau yn deillio o Ddatganiad Polisi'r Gymraeg.

Newidiadau i Gyfalaf

- 9.7** Trosglwyddwyd cyfanswm o £30,200k o gronfeydd wrth gefn i Gam Gweithredu'r Ystad a'r Ddarpariaeth TG
- Trosglwyddiad o £2,700k i mewn ar gyfer cyfleuster Hyfforddi Aerospace;
 - Trosglwyddiad o £4,500k o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol i mewn ar gyfer Campws Aberdâr Coleg y Cymoedd;
 - Trosglwyddiad o £23,000k i mewn i gyflymu gwariant cyfalaf ar gyfer cynlluniau sydd eisoes yn cael eu hadeiladu yn Rhaglen Ysgolion y 21^{ain} Ganrif.

Tabl 9.1 – Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant (SPA) Addysg a Sgiliau

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnoddau 2015-16			Cyfalaf 2015-16		
	Cyllideb ¹⁷	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb ¹⁸	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Safonau Addysg a Hyfforddiant	932,092	-9,893	922,199	173,834	30,200	204,034
Gweithlu Medrus	62,103	-398	61,705	0	0	0
Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad	562,864	15,437	578,301	0	0	0
Yr Iaith Gymraeg	27,248	-33	27,215	0	0	0
Cymorth Cyflawni	4,702	-200	4,502	0	0	0
Cyfanswm DEL	1,589,009	4,913	1,593,922	173,834	30,200	204,034
AME						
Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad	-88,444	-226,993	-315,437	421,248	-8,522	412,726
Gweithlu Medrus	6,000	0	6,000	0	0	0
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	1,506,565	-222,080	1,284,485	595,082	21,678	616,760

¹⁷ Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

¹⁸ Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

10. Cyfoeth Naturiol

Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

10.1 Cafwyd cynnydd net yn DEL Cyfoeth Naturiol o £14,062k, gan gynnwys cynnydd mewn Adnoddau o £9,259k a chynnydd mewn Cyfalaf o £4,803k.

AME

10.2 Cafwyd gostyngiad o £500k yn y gyllideb AME i adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf mewn perthynas â rhwymedigaeth Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â phensiynau.

Newidiadau i Adnoddau

10.3 Effaith net trosglwyddiadau â chronfeydd wrth gefn yw cynnydd o £8,242k, gan gynnwys:

- Trosglwyddiad o £8,110k o Adnodd Anghyllidol i mewn i Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu, mewn perthynas â chynnydd mewn yswiriant dibrisiant ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Trosglwyddiad o £1,512k i mewn i Gam Gweithredu Datblygu a Darparu Polisi a Rhaglenni Cyffredinol ar Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr mewn perthynas â Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain;
- Trosglwyddiad o £670k o Adnodd Anghyllidol i mewn i Gam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â dibrisiant system TG ar-lein RPW;
- Trosglwyddiad o £300k i mewn i Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu Gwelliant Amgylcheddol mewn perthynas â Thir Halogedig yn Wrecsam;
- Trosglwyddiad o £29k Adnodd Anghyllidol i mewn i Gam Gweithredu Datblygu Sylfaen Dystiolaeth er mwyn Helpu Gwaith yr Adran mewn perthynas â chynnydd mewn dibrisiant ar gyfer fferm Pwllpeiran;

- Trosglwyddiad o £2,179k allan o Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu mewn perthynas ag Incwm Ffermydd Gwynt y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gael;
- Trosglwyddiad o £200k allan o Gam Gweithredu Datblygu Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion fel cyfraniad y MEG Cyfoeth Naturiol at Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yn y MEG Addysg a Sgiliau.

10.4 Effaith net trosglwyddiadau â MEGs eraill yw cynnydd o £1,017k, sy'n cynnwys yr addasiad canlynol dros £250k:

- trosglwyddiad o £1,054k i mewn o Gam Gweithredu'r Gronfa Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu mewn perthynas ag arian Buddsoddi i Arbed i Gyfoeth Naturiol Cymru.

10.5 Gwnaed nifer o drosglwyddiadau yn y MEG; mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae Tablau'r Camau Gweithredu yn dangos effaith net y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod amlinellir trosglwyddiadau penodol dros £250k.

Cam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu

- Trosglwyddiad o £300k allan i Gam Gweithredu Datblygu a Rheoli Môr, Pysgodfeydd a Dyframaethu gan gynnwys Cam Gweithredu Gorfodi Pysgodfeydd Cymru oherwydd bod Cefas yn cynnal adolygiad gofodol o agregau morol fel rhan o'r Cynllun Morol.

Cam Gweithredu Datblygu a Rheoli Môr, Pysgodfeydd a Dyframaethu gan gynnwys Cam Gweithredu Gorfodi Pysgodfeydd Cymru

- Trosglwyddiad o £300k i mewn o Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu i ariannu Cefas i gynnal adolygiad gofodol o agregau morol fel rhan o'r Cynllun Morol.

Newidiadau i Gyfalaf

10.6 Cafwyd trosglwyddiad net o £7,838k i mewn o gronfeydd wrth gefn, gan gynnwys:

- Trosglwyddiad o £5,000k i mewn i Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau o Gyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau ynglŷn â'r Newid yn yr Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd, mewn perthynas â thrafodiadau ariannol ar gyfer Twf Gwyrdd;
- Trosglwyddiad o £2,538k i mewn i Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Rhaglenni Trosfwaol ar Ddatblygu Cynaliadwy a'r Amgylchedd mewn perthynas â gwaith ar Gamlas Sir Fynwy a Brycheiniog;
- Trosglwyddiad o £300k i mewn i Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu mewn perthynas â'r prosiect atgyweirio yn dilyn tirlithriad ym Mhentreclwydau.

10.7 Effaith net trosglwyddiadau â MEGs eraill yw gostyngiad o £3,035k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

- Trosglwyddiad o £3,635k allan o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau o Gyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau ynglŷn â'r Newid yn yr Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i gefnogi Prosiectau Twf Gwyrdd;
- Trosglwyddiad o £600k i mewn o Gam Gweithredu Buddsoddi i Arbed o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu mewn perthynas â chyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

10.8 Cafwyd nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG, mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae Tablau'r Camau Gweithredu'n dangos effaith net y rhain ar bob cam gweithredu. Isod ceir dadansoddiad o drosglwyddiadau eraill dros £250k:

Cam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru

- Trosglwyddiad o £8,600k i mewn i ariannu costau gweithredu system TG Diwygio'r PAC, gan gynnwys:
 - Trosglwyddiad o £3,000k i mewn o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir; Dŵr a Charthion i gefnogi cynlluniau atal llifogydd;
 - Trosglwyddiad o £2,600k i mewn o Gam Gweithredu Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig;
 - Trosglwyddiad o £2,500k i mewn o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau o Gyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau ynglŷn â'r Newid yn yr Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd;
 - Trosglwyddiad o £500k o Gam Gweithredu Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff.

Darparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig

- Trosglwyddiad o £2,600k allan i Gam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru tuag at gost gweithredu system TG Diwygio'r PAC.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau o Gyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau ynglŷn â'r Newid yn yr Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd

- Trosglwyddiad o £2,500k allan i Gam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru tuag at gost gweithredu system TG Diwygio'r PAC.

Cam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi a Deddfwriaeth ynglŷn â'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir, Dŵr a Charthion

- Trosglwyddiad o £3,000k allan i Gam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru tuag at gost gweithredu system TG Diwygio'r PAC.

Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r Rhaglen Caffael Gwastraff

- Trosglwyddiad o £500k allan i Gam Gweithredu Gweinyddu'r PAC a Gwneud Taliadau yn unol â Rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru tuag at gost gweithredu system TG Diwygio'r PAC.

Cam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu

- Trosglwyddiad i mewn o £900k o Gam Gweithredu Hyrwyddo a Chefnogi Tirweddau Gwarchoddedig, Mynediad Ehangach i Fannau Gwyrdd ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru gan mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol amdano.

Cam Gweithredu Hyrwyddo a Chefnogi Tirweddau Gwarchoddedig, Mynediad Ehangach i Fannau Gwyrdd

- Trosglwyddiad o £900k allan i Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru gan mai Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol amdano.

Tabl 10.1 – Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant (SPA) Cyfoeth Naturiol

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnoddau 2015-16			Cyfalaf 2015-16		
	Cyllideb ¹⁹	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb ²⁰	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig
Amaethyddiaeth a Bwyd	52,077	2,482	54,559	11,723	6,000	17,723
Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid	30,656	0	30,656	0	0	0
Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd	112,460	-237	112,223	100,624	-2,097	98,527
Yr Amgylchedd	75,481	6,985	82,466	795	1,800	2,595
Sylfaen Dystiolaeth	936	29	965	38	0	38
Cynllunio	6,421	0	6,421	0	0	0
Y Tirwedd a Hamdden Awyr Agored	10,527	0	10,527	2,500	-900	1,600
Cyfanswm DEL	288,558	9,259	297,817	115,680	4,803	120,483
AME						
Yr Amgylchedd	2,900	-500	2,400	0	0	0
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	291,458	8,759	300,217	115,680	4,803	120,483

¹⁹ Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

²⁰ Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

11. Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

Newidiadau Cyffredinol i'r Gyllideb

11.1 Cafwyd gostyngiad o £7,065k, yn y DEL Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, gan gynnwys gostyngiad o ran Adnodd o £16,229k a chynnydd o ran Cyfalaf o £9,164k.

AME

11.2 Mae'r gyllideb AME wedi gostwng £7,766k o ganlyniad i ddileu darpariaeth ar gyfer colledion a ragwelir yn y gyfradd gyfnewid Ewropeaidd heb eu gwireddu (£7,000k); rhyddhau darpariaethau gweinyddol cyffredinol (£750k); a gostyngiad yn swm y cyllid rydym wedi'i neilltuo i ddarparu ar gyfer ymddeoliad cynnar (£16k).

Trosglwyddiadau Llywodraeth y DU

11.3 Gwnaed trosglwyddiad o £1,456k i mewn i Gam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd i ariannu gwelliannau ynni ac amgylcheddol mewn sefydliadau sector cyhoeddus.

Newidiadau i Adnoddau

11.4 Effaith net y trosglwyddiadau â'r Cronfeydd wrth Gefn yw gostyngiad o £2,053k, yn cynnwys:

- £3,807k i Gam Gweithredu Rheoli'r Gwaith o Weithredu Rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru gan ddarparu cymorth ychwanegol i'r rhaglenni hyn.

11.5 Gwnaed trosglwyddiad o fewn y MEG; effaith net hyn yw gostyngiad o £5,860k o ran Adnoddau yn sgil trosglwyddiad Adnodd i Gyfalaf. Mae'r tablau camau gweithredu yn dangos effaith net y rhain.

11.6 Effaith net y trosglwyddiadau gyda MEG eraill yw gostyngiad o £14,176k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

- Trosglwyddiad o £9,069 allan o Gam Gweithredu Buddsoddi i Arbed, sy'n cynnwys:
 - £7,900k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn perthynas â chynlluniau Buddsoddi i Arbed;
 - £1,054k allan i Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu yn y MEG Cyfoeth Naturiol mewn perthynas â chyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Trosglwyddiad o £310k allan o Gam Gweithredu Costau Staff i Gam Gweithredu Cymwysterau yn y MEG Addysg a Sgiliau i dalu am gostau trosglwyddo staff i gorff Cymwysterau Cymru sydd newydd ei ffurfio.
- Trosglwyddiad o £1,240k allan o Gam Gweithredu Academi Wales gan fod Academi Wales yn cael ei drosglwyddo i'r MEG Llywodraeth Leol.
- Trosglwyddiad net o £3,627k allan o Gam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed: Ad-dalu Buddsoddiadau, sy'n cynnwys:
 - £4,127k allan i'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y trosglwyddwyd £3,927k ohono i Gam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu;
 - £500k i mewn o Gam Gweithredu Hybu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd ym MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

11.7 Gwnaed nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG; mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae'r tablau camau gweithredu yn nodi effaith net y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

Cam Gweithredu Costau Staff

- Trosglwyddiad net o £461k allan, gan gynnwys:
 - £1,000k i Gam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed: Ad-dalu Buddsoddiadau, i ad-dalu'n rhannol yr arian a gafwyd yn 2014-15 i dalu am gostau diswyddo gwirfoddol Llywodraeth Cymru;
 - £414k i mewn o Gam Gweithredu Buddsoddiad Cyfalaf Strategol i ariannu staff sy'n gweithio yn y maes hwn.

Cam Gweithredu Gweinyddu Cyffredinol

- Trosglwyddiad net o £1,783k allan, gan gynnwys:
 - £344k allan i Gam Gweithredu TG yn sgil arbedion a nodwyd ar draws amryw gyllidebau gwasanaethau canolog;
 - £760k allan i Gam Gweithredu Tribiwnlysoedd i gynyddu'r cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yng Nghymru;
 - £289k allan i adleoli o fewn y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

Cam Gweithredu Costau TG (Adnodd)

- Trosglwyddiad o £344k i mewn o Gam Gweithredu Gweinyddu Cyffredinol yn sgil arbedion a nodwyd ar draws amryw gyllidebau gwasanaethau canolog.

Cam Gweithredu Tribiwnlysoedd

- Trosglwyddiad o £760k i mewn o Gam Gweithredu Gweinyddu Cyffredinol i gynyddu'r cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd yng Nghymru.

Cam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol

- Trosglwyddiad o £414k allan i Gam Gweithredu Costau Staff i dalu costau staff sy'n gweithio yn y maes hwn.

Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

- Trosglwyddiad o £2,118k i mewn o Gam Gweithredu Buddsoddi i Arbed i dalu costau gweithredol a chostau rhaglen y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Cronfa Buddsoddi i Arbed

- Trosglwyddiad o £2,118k allan i Gam Gweithredu y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i dalu costau gweithredol a chostau rhaglen y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Cam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed: Ad-dalu Buddsoddiadau

- Trosglwyddiad o £1,000k i mewn o Gam Gweithredu Costau Staff i ad-dalu'n rhannol yr arian a gafwyd yn 2014-15 i dalu am gostau diswyddo gwirfoddol Llywodraeth Cymru.

Newidiadau i Gyfalaf

11.8 Gwnaed trosglwyddiad o fewn y MEG; effaith net hyn yw cynnydd mewn Cyfalaf o £5,860k yn sgil trosglwyddiad Adnodd i Gyfalaf. Mae'r tablau camau gweithredu yn dangos effaith net y rhain.

11.9 Effaith net y trosglwyddiadau â MEG eraill yw cynnydd o £1,848k, sy'n cynnwys yr addasiadau canlynol dros £250k:

- trosglwyddiad net i Gam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed sy'n cynnwys:
 - £3,635k i mewn o Gam Gweithredu Datblygu a Gweithredu Polisi, Dulliau Cyfathrebu, Deddfwriaeth a Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd, Atal Allyriadau a Thlodi Tanwydd yn y MEG Cyfoeth Naturiol mewn perthynas â'r Gronfa Twf Gwyrdd;
 - £767k allan i Gam Gweithredu Cyflenwi'r GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â chynlluniau Buddsoddi i Arbed;

- £600k allan i Gam Gweithredu Noddi a Rheoli Cyrff Gweithredu yn y MEG Cyfoeth Naturiol mewn perthynas â chyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru;
- £420k allan i MEG yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, y trosglwyddwyd £300k ohono i Gam Gweithredu Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd i'w fuddsoddi mewn goleuadau LED.

11.10 Gwnaed nifer o drosglwyddiadau o fewn y MEG; mae effaith net y rhain yn niwtral. Mae'r tablau camau gweithredu yn nodi effaith net y rhain ar bob Cam Gweithredu. Isod, ceir manylion trosglwyddiadau penodol dros £250k:

Cam Gweithredu Cyfalaf

- Trosglwyddiad net o £1,646k i mewn fel cyfraniad tuag at reoli a chynnal a chadw ystad Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys:
 - £1,376k i mewn o Gam Gweithredu Gwella Busnes;
 - £270k i mewn o Gam Gweithredu Costau TG (Cyfalaf).

Cam Gweithredu Gwella Busnes

- Trosglwyddiad net o £1,572k allan sy'n cynnwys £1,376k i Gam Gweithredu Cyfalaf fel cyfraniad at reoli a chynnal a chadw ystad Llywodraeth Cymru.

Cam Gweithredu Costau TG (Cyfalaf)

- Trosglwyddiad net o £74k allan sy'n cynnwys £270k i Gam Gweithredu Cyfalaf fel cyfraniad at reoli a chynnal a chadw ystad Llywodraeth Cymru.

Cronfa Buddsoddi i Arbed

- Trosglwyddiad o £565k allan i Gam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed: Ad-dalu Buddsoddiadau i adlewyrchu cynnydd yn lefel yr ad-daliadau a ddisgwylir i'r Gronfa.

Cam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed: Ad-dalu Buddsoddiadau

- Trosglwyddiad o £565k i mewn o Gam Gweithredu y Gronfa Buddsoddi i Arbed i adlewyrchu cynnydd yn lefel yr ad-daliadau a ddisgwylir i'r gronfa.

Tabl 11.1 – Dyraniadau Maes Rhaglenni Gwariant (SPA) Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

DEL	£000oedd			£000oedd		
	Adnoddau 2015-16			Cyfalaf 2015-16		
	Cyllideb ²¹	Newidiadau	Cyllideb Ddiwygiedig	Cyllideb ²²	Newidiadau	Cyllideb Newydd
Costau Rhedeg Dirprwyedig	202,891	-771	202,120	0	0	0
Costau Rhedeg Canolog	70,775	-1,439	69,336	11,435	1,048	12,483
Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth	11,582	1,546	13,128	0	0	0
Rhaglenni Canolog	24,722	-18,324	6,398	0	8,116	8,116
WEFO	1,507	2,759	4,266	0	0	0
Cyfanswm DEL	311,477	-16,229	295,248	11,435	9,164	20,599
AME						
Costau Rhedeg Canolog	2,494	-16	2,478	0	0	0
Gweinyddu Cyffredinol	0	-750	-750	0	0	0
WEFO	7,000	-7,000	0	0	0	0
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	320,971	-23,995	296,976	11,435	9,164	20,599

²¹Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

²²Ffigurau'r gyllideb adeg Cynnig y Gyllideb Atodol a gymeradwywyd ym mis Gorffennaf 2015.

Atodiad 1 – Cysoni rhwng Cyllideb Bloc Cymru a'r Dyraniadau Adnoddau yng Nghynnig y Gyllideb

Mae'r ddogfen hon yn ategu Cynnig y Gyllideb Atodol, sy'n nodi'r newidiadau yn yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu defnyddio yn 2015-16 a'r arian parod y mae'n ceisio awdurdod i'w dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn yn dangos cyllidebau ar sail weinyddol, ond ffigurau ar sail adnoddau yw'r ffigurau yng Nghynnig y Gyllideb Atodol.

Mae cyllideb weinyddol Llywodraeth Cymru yn cynnwys nifer o eitemau sy'n cael eu sgorio y tu allan i gyfrifon Llywodraeth Cymru, ac felly nid ydynt yn cael eu sgorio fel rhan o'r Adnoddau sy'n Ofynnol gan Weinidogion Cymru. Mae'r Atodiad hwn yn cysoni cyllidebau gweinyddol ac adnoddau pob MEG.

Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

DEL	£000oedd
	2015-16
Adnoddau	6,598,808
Cyfalaf	225,669
AME	
Adnoddau	90,700
Cyfalaf	0
TME	6,915,177
Cysoni ag Adnoddau	
Defnyddio Adnoddau gan Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrrff y GIG	-177,700
Benthyca â Chymorth	-3,602
Derbyniadau o'r Gronfa Yswiriant Gwladol (a chostau casglu)	-1,104,050
Addasiad mewn Cyfalaf Gweithio	35,000
Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	5,664,825

Llywodraeth Leol

DEL	£000oedd
	2015-16
Adnoddau	3,430,020
Cyfalaf	22,920
AME	
Adnoddau	976,890
Cyfalaf	5,240
TME	4,435,070
Cysoni ag Adnoddau	
Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a chostau casglu)	-961,172
Defnyddio Adnoddau gan Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	-400
Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	3,473,498

Cymunedau a Threchu Tlodi

DEL	£000oedd
	2015-16
Adnoddau	344,107
Cyfalaf	422,420
AME	
Adnoddau	0
Cyfalaf	0
TME	766,527
Cysoni ag Adnoddau	
Benthyca â Chymorth	-31,340
Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	735,187

Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

DEL	£000oedd
	2015-16
Adnoddau	736,152
Cyfalaf	530,891
AME	
Adnoddau	75,946
Cyfalaf	0
TME	1,342,989
Cysoni ag Adnoddau	
Defnyddio adnoddau gan Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	-6,281
Benthyca â Chymorth	-10,336
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	-1,666
PFI	-8,012
Cyllid Cymru	15,100
Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	1,331,794

Addysg a Sgiliau

DEL	£000oedd
	2015-16
Adnoddau	1,593,922
Cyfalaf	204,034
AME	
Adnoddau	-309,437
Cyfalaf	412,726
TME	1,901,245
Cysoni ag Adnoddau	
Defnyddio Adnoddau gan Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	-6,082
Benthyca â Chymorth	-33,781
Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	1,861,382

Cyfoeth Naturiol

DEL	£000oedd
	2015-16
Adnoddau	297,817
Cyfalaf	120,483
AME	
Adnoddau	2,400
Cyfalaf	0
TME	420,700
Cysoni ag Adnoddau	
Defnyddio Adnoddau gan Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru	-13,600
Benthyca â Chymorth	-9,741
Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	397,359

Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

DEL	£000oedd
	2015-16
Adnoddau	295,248
Cyfalaf	20,599
AME	
Adnoddau	1,728
Cyfalaf	0
TME	317,575
Cysoni ag Adnoddau	
Adnoddau y Gwnaed Cais Amdanynt	317,575

Atodiad 2 – Geirfa

Adnoddau (arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw')	Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul.
Adolygiad o Wariant	Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys EM yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd ganlynol. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. Dull a ddefnyddir gan Drysorlys EM yw hwn i gyfrifo'r gwariant cyhoeddus a ddyrennir i Gymru i adlewyrchu'r newidiadau yn lefelau'r gwariant a ddyrennir i wasanaethau cyhoeddus yn Lloegr.
Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau (RBA)	Methodoleg gynllunio yn seiliedig ar ganlyniadau yw Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau (RBA). Canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na gweithgarwch yw ei fwriad. Defnyddir RBA yn aml i ddatblygu dangosyddion canlyniadau a mesurau perfformiad ar gyfer maes ac mae'n ceisio egluro strwythurau atebolrwydd.
Cam Gweithredu	O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y Camau Gweithredu ar gael yn: www.cymru.gov.uk/cyllideb
CNLC	Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru
Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru	Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y Costau Uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol.
Cronfa Gyfunol Cymru	Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU.

Cwmpasoedd	Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant.
Cyfalaf	Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a reffeniw.
Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)	Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol.
Cyllidebu Adnoddau	Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliodd.
DEL Adnoddau Anghyllidol (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod')	Mesurau croniadau a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio DEL Adnoddau Anghyllidol i gyllido gwariant DEL Adnoddau Cyllidol.
DEL Adnoddau Cyllidol (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau sydd bron yn arian parod')	Mesurau croniadau sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft cyflog, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau.
Cynnig y Gyllideb	Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru.
System Cyfnewid Cyllidebau	Y system y gall Llywodraeth Cymru dynnu tanwariant ymlaen oddi tani, hyd at gap y cytunir arno. Y cap y cytunwyd arno yw 0.6% o'n cyllideb DEL Adnoddau ac 1.5% o'n cyllideb DEL Cyfalaf.

Derbyniadau	Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol.
Dibrisiant	Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol.

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)	Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr.
Prif Grŵp Gwariant (MEG)	Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir 9 Prif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Llywodraeth Leol; Cymunedau a Threchu Tlodi; yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth; Addysg a Sgiliau; Adnoddau Naturiol a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.
Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)	Terfyn y gyllideb amflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant.
Trafodiadau Ariannol	Nid yw trafodiadau ariannol yn grantiau cyfalaf traddodiadol, a dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir eu defnyddio. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon